CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd E. Williams (Chair) (o eitem 3 ymlaen)

Y Cynghorwyr:
M. Hughes, M. Lewis, P. Lewis, M. Norris, D. Rose a N. Yeowell

O. Richards – Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun (Aelod Cyfetholedig heb bleidlais)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:
C. Moore – Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Caerfyrddin)
S. Murphy – Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Caerfyrddin)
C. Lee – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (Dinas Caerdydd)
J. Dong – Dirprwy Swyddog Adran 151/Prif Swyddog Cyllid (Cyngor Dinas a Sir Abertawe)
J. Thomas – Swyddog Adran 151 (Cyngor Sir Penfro)
D. Morgan - Pennaeth Cyllid (Cyngor Sir Gwynedd)
P. Griffiths - Cyfarwyddwr Cyllid a Gwella (Rhondda Cynon Taf)
P. Latham – Pennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)
A. Bull – Pennaeth Pensiynau (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)
A. Parnell – Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddi Pensiynau (Cyngor Sir Caerfyrddin)
T. Williams – Uwch-swyddog y Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir Caerfyrddin)
A. Eynon - Cyfieithydd ar y Pryd (Cyngor Sir Caerfyrddin)
M. Runeckles - Swyddog Cymorth i'r Aelodau (Cyngor Sir Caerfyrddin)
D. Hall-Jones, Swyddog Cymorth i'r Aelodau (Cyngor Sir Caerfyrddin) [gweddarlledwr]
K. Thomas - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Sir Caerfyrddin)
J. Owens - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Sir Caerfyrddin) [Cymryd Nodiadau]

Hefyd yn bresennol i gyflwyno adroddiadau:
J. Blewitt – Archwilio Cymru
A. Johnston – Hymans Robertson
R. Barrack – Hymans Robertson
S. Stephenson – Hymans Robertson
S. Jones – Hymans Robertson
K. Midl – Waystone Management
J. Zealander – Waystone Management
R. Thornton – Waystone Management
A. Murphy– Russell Investments
A. Quinn – Russell Investments
P. Myles – Schroders Capital
T. Creed – Schroders Capital
L. Bailey – Northern Trust
A. Knell – Robeco (eitem 15 yn unig)
A. Samson – Robeco (eitem 15 yn unig)

Swyddogion yn bresennol fel sylwedyddion:
D. Jones-Thomas – Rheolwr Buddsoddi (Cyngor Sir Gwynedd)
K. Cobb – Rheolwr Cyfrifo a Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn (Cyngor Dinas a Sir Abertawe)
I. Hughes – Swyddog Buddsoddiadau Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)
Y. Keitch – Prif Gyfrifydd (RhCT)
C. Hurst - Rheolwr Cronfa Bensiwn (Cyngor Sir Penfro)
G. Watkins – Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Ariannol (Dinas Caerdydd)
M. Falconer – Rheolwr Pensiwn (Dinas Caerdydd)

Yn bresennol fel sylwedydd:
I. Guy - Cynrychiolydd Aelodau o'r Cynllun (wrth gefn)

Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 12.53 yp

[NODYN 1: Ar ddechrau'r cyfarfod, croesawodd Cyfarwyddwr Adnoddau / Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Cynnal y Cynghorwyr M. Hughes a D. Rose i'w cyfarfod cyntaf yn dilyn eu penodi i Gyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru. Estynnwyd croeso cynnes hefyd i Mr S. Murphy, a oedd wedi'i benodi'n Swyddog Monitro'r Awdurdod Cynnal yn dilyn ymddeoliad ei ragflaenydd, Mrs L. Rees-Jones.

NODYN 2: Am 11:32 gohiriwyd y cyfarfod i gael seibiant a chafodd ei ailgynnull am 11.40]

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Chris Weaver.

2. PENODI CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AM Y 12 MIS CALENDR SYDD I DDOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Elwyn Williams yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.

3. PENODI IS-GADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AM Y 12 MIS CALENDR SYDD I DDOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Medwyn Hughes yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.

4. DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelod	Rhif yr Eitem ar yr Agenda	Buddiant
Y Cynghorydd M. Lewis	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Abertawe.
Y Cynghorydd P. Lewis	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Powys
Y Cynghorydd N.	Pob eitem ar yr	Mae'n aelod o Gronfa

Yeowell	agenda	Bensiwn Gwent Fwyaf
Y Cynghorydd M. Norris	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd D. Rose	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Clwyd
Y Cynghorydd E. Williams	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed
Y Cynghorydd M. Hughes	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd

[Sylwer: Ceir eithriad yn y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau, sy'n caniatáu i aelod a benodwyd neu a enwebwyd gan ei Awdurdod i gorff perthnasol ddatgan y buddiant hwnnw ond aros a chymryd rhan yn y cyfarfod.]

5. I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CYD-BWYLLGOR A GYNHALIWYD AR Y 13EG MAWRTH 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2024 gan eu bod yn gywir.

6. FFURFLEN / ARCHWILIAD FLYNYDDOL 2023/24

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Llywodraeth Ffurflen/Archwiliad Blynyddol 2023/24. Roedd yr adroddiad wedi'i rannu'n adrannau fel a ganlyn:

1. Datganiadau Cyfrifon 2023/24 – gan gynnwys datganiad incwm a gwariant / derbynebau a thaliadau a datganiad balansau.
2. Datganiad Llywodraethu Blynyddol
3. Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor
4. Cadarnhad Archwilio Mewnol/Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol

Nododd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu fod Adrannau 1 a 2 wedi'u cwblhau gan yr Awdurdod Cynnal yn unol ag arferion priodol fel y nodir yn y Canllaw Ymarferwyr. Roedd adran 4 wedi'i chwblhau gan Adran Archwilio Mewnol yr Awdurdod Cynnal ac roedd y Ffurflen Flynyddol wedi'i harchwilio gan Archwilio Cymru.

Nodwyd hefyd bod yr Awdurdod Cynnal wedi paratoi Datganiad Cyfrifon i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2023/24. Er nad oedd y Datganiad yn ofyniad statudol ac na fyddai'n cael ei archwilio, fe'i paratowyd er gwybodaeth yn unig, i gefnogi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

6.1 Nodi Cynllun Archwilio 2023/24.
6.2 Derbyn y llythyr gan Archwilio Cymru ynghylch Ffurflen Flynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru 2023/24.
6.3 Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol wedi'i Harchwilio ar gyfer

2023/24.

6.4 Nodi'r Datganiad Cyfrifon heb ei Archwilio ar gyfer 2023/24.

7. DIWEDDARIAD AWDURDOD CYNNAL

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor ddiweddariad cynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Llywodraethu;
- Sefydlu parhaus;
- Gwasanaethau gweithredwyr;
- Cyfathrebu ac adrodd;
- Hyfforddiant a chyfarfodydd;
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd.

Cyfeiriwyd at werth asedau cyfun ac awgrymwyd tynnu sylw at ffigurau canrannol y cronfeydd unigol yn yr adroddiad yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gais, dywedodd yr Awdurdod Cynnal y gellid hwyluso sesiynau briffio anffurfiol y Cyd-bwyllgor yn ôl yr angen er mwyn trafod materion perthnasol. Yn hyn o beth, gofynnwyd i aelodau'r Cyd-bwyllgor awgrymu pynciau i'w hystyried er mwyn gwneud trefniadau priodol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod diweddariad yr Awdurdod Cynnal yn cael ei dderbyn.

8. ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 2 2024

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Adolygiad Cofrestr Risg Ch2 2024. Atgoffwyd yr Aelodau mai pwrpas Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru yw:

- Amlinellu risgiau allweddol Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r ffactorau a allai gyfyngu ar ei gallu i fodloni ei hamcanion.
- Mesur difrifoldeb a thebygolrwydd y risg sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Crynhoi strategaethau rheoli risg Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyniad am fwy o strategaethau lliniaru risg.

Roedd adolygiad chwarterol o'r gofrestr wedi'i gynnal gan y Gweithgor Swyddogion a oedd yn edrych ar rai o'r risgiau yn adran Llywodraethu a

Rheoleiddio y Gofrestr Risg. Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor am ganlyniadau'r adolygiad ar gyfer pob un o'r risgiau hynny (G.8. – G.18) fel y'u crynhoir yn yr adroddiad.

Byddai'r adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch3 2024 a byddai'n canolbwyntio ar yr adran Risgiau Hyfforddiant ac Adnoddau a Chyfathrebu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r newidiadau i Gofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

9. ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor y polisïau canlynol wedi'u diweddaru i'w hystyried:

- Polisi Buddsoddi Cyfrifol
- Polisi Hinsawdd
- Polisi Stiwardiaeth.

Nodwyd bod y polisïau uchod wedi'u cymeradwyo'n wreiddiol gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ym mis Medi 2019, mis Gorffennaf 2020 a mis Rhagfyr 2020 yn y drefn honno. Er bod yr holl bolisïau yn cael eu hadolygu'n flynyddol roedd y diwygiadau a argymhellwyd yn ystod yr adolygiad eleni yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor.

Yn ogystal, rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor bod adolygiad blynyddol wedi'i gynnal yn unol â'r ymrwymiadau a nodwyd yn y polisïau Buddsoddi Cyfrifol a Hinsawdd a rhoddwyd asesiad o'r cynnydd a wnaed gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024 a'r meysydd ffocws arfaethedig yn y dyfodol.

Gofynnwyd bod unrhyw ddiwygiadau polisi arfaethedig yn cael eu hamlygu mewn adroddiadau yn y dyfodol er hwylustod.

Mewn perthynas â'r Polisi Stiwardiaeth, dywedwyd y dylid adolygu'r geiriad yn adran 4.3 i egluro pwerau a chyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgor ynghylch penderfyniadau gwerthu ac ystyried dadfuddsoddi, a bod Rheolwyr Buddsoddi yn gyfrifol am weithredu'r penderfyniadau hynny. Cafwyd sicrwydd gan gynrychiolwyr Hymans fod y geiriad presennol yn adlewyrchu bwriad ac uchelgeisiau'r Cyd-bwyllgor ac y gellid trafod y mater ymhellach yn y gweithdy a fyddai'n cael ei gynnal ar gyfer y Cyd-bwyllgor ym mis Medi 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

9.1 Cymeradwyo'r polisïau canlynol wedi'u diweddaru fel y nodwyd yn yr adroddiad:

- **Polisi Buddsoddi Cyfrifol**

- **Polisi Hinsawdd**
- **Polisi Stiwardiaeth**

9.2 Nodi'r diweddariad cynnydd blynyddol ynghylch Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd

10. DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR - ADOLYGIAD Ch1 2024

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad gan Waystone Management (UK) Limited ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer Chwarter 1, 2024, mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Diweddariadau'r farchnad ;
- Daliannau cyfredol y gronfa;
- Diweddariad is-gronfeydd;
- Diweddariad ac ymgysylltiad corfforaethol

Cafodd y Cyd-bwyllgor ddiweddariadau ynghylch y canlynol:-

- Diweddariad y farchnad
- Diweddariad busnes
- Crynodeb Asedau Dan Reolaeth ar 31 Mawrth 2024
- Newidiadau i gronfeydd mewn perthynas â'r Gronfa Twf Byd-eang
- Diweddariadau'r farchnad mewn perthynas â Rwsia / Wcráin a'r Dwyrain Canol
- Diweddariad ac ymgysylltiad corfforaethol.

PENDERFYNODD YN UNFRYDOL dderbyn y Diweddariad gan y Gweithredwr.

11. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 31 MAWRTH 2024

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ar yr Adroddiadau Perfformiad fel yr oeddent ar 31 Mawrth, 2024. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod yr is-gronfeydd a oedd wedi perfformio'n uwch/tanberfformio eu meincnodau priodol, fel a ganlyn:

- Twf Byd-eang - tanberfformiad o 1.1% gros / 1.6% net

- Cyfleoedd Byd-eang - wedi perfformio 1.0% gros / 0.7% net yn uwch
- Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy – tanberfformiad o 3.8% gros / 4.1% net
- Marchnadoedd Datblygol – tanberfformiad o 1.4% gros / 2.0% net
- Cyfleoedd y DU – tanberfformiad o 0.1% gros / 0.5% net
- Bond Llywodraeth Fyd-eang – perfformiodd 1.1% gros / 0.8% net yn uwch
- Credyd Byd-eang – meincnod wedi'i fodloni gros / tanberfformiad o 0.2% net

Nododd y Pwyllgor nad oedd y cronfeydd Credyd Aml-asedau a Bond Elw Absoliwt wedi cyrraedd eu targedau a bod y Gronfa Credyd Sterling wedi rhagori ar ei tharged.

PENDERFYNWYD nodi Adroddiadau Perfformiad yr is-gronfeydd canlynol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2024:

11.1 Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang
11.2 Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang
11.3 Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
11.4 Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol
11.5 Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU
11.6 Cronfa Bond Llywodraeth Fyd-eang
11.7 Cronfa Credyd Byd-eang
11.8 Cronfa Credyd Aml-asedau
11.9 Cronfa Bond Elw Absoliwt
11.10 Cronfa Credyd Sterling

12. DIWEDDARIAD MARCHNADOEDD PREIFAT - ECWITI PREIFAT

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad gan Schroders Capital, Dyrannwr Ecwiti Preifat Partneriaeth Pensiwn Cymru, ar y rhaglen ecwiti preifat bengaead a oedd yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau amrywiol ar draws prif fuddsoddiadau, buddsoddiadau eilaidd a chyd-fuddsoddiadau yng Ngogledd America, Ewrop ac Asia. Roedd cyfanswm o £156m wedi'i glustnodi hyd yn hyn a'r cronfeydd pensiynau a oedd yn buddsoddi yn y rhaglen oedd Caerdydd a Bro Morgannwg, Clwyd, Gwynedd, Powys a Dinas a Sir Abertawe.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddaru ar y Diweddariad ynghylch Marchnadoedd Preifat – Ecwiti Preifat.

13. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys

gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

14. ADOLYGIAD PERFFORMIAD BENTHYCA GWARANNAU 2023/24

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 13 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Nododd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yr Adroddiad ar Adolygiad Perfformiad Benthyca Gwarannau 2023/2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad ar Adolygiad Perfformiad Benthyca Gwarannau 2023/2024.

15. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD YMGYSYLLTU Ch1 2024

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 13 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor yr Adroddiad Ymgysylltu ar gyfer Ch1 2024 (y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2024).

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Ymgysylltu ar gyfer Ch1 2024.

16. ADRODDIADAU BUDDSODDI CYFRIFOL A RISG HINSAWDD

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 13 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor yr adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd, ar gyfer Chwarter 1, 2024 (y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2024), mewn perthynas â'r cronfeydd canlynol:-

- Twf Byd-eang
- Cyfleoedd Byd-eang
- Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy

Rhoddodd yr adroddiad sylw i fetrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu gan dynnu sylw at unrhyw risgiau a materion perthnasol sy'n gysylltiedig â ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a nododd gamau allweddol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru eu trafod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd.

17. ADOLYGIAD O IS-GRONFA PPC

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 13 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor ganlyniad adolygiad annibynnol a oedd wedi'i gynnal ynghylch Is-gronfeydd canlynol Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Marchnad Ddatblygol
- Credyd Aml-asedau
- Bond Elw Absoliwt
- Credyd Sterling

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

18. PENODIADAU RHEOLWR BUDDSODDI EIDDO TIROL PPC

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 13 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, D. Rose, E Williams a M. Hughes wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach.]

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu adroddiad ynghylch penodi Rheolwyr Eiddo Tirol Preifat ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

18.1 **Penodi Cynigydd 11 fel y cynigydd a ffefrir ar gyfer Eiddo Tirol Craidd y DU Partneriaeth Pensiwn Cymru (Lot 1) yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a chwblhau'r Contract.**

18.2 **Penodi Cynigydd 5 fel y cynigydd a ffefrir ar gyfer Eiddo Tirol Craidd Rhyngwladol Partneriaeth Pensiwn Cymru (Lot 2) yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a chwblhau'r Contract.**

18.3 **Penodi Cynigydd 14 fel y cynigydd a ffefrir ar gyfer Eiddo Tirol Lleol / Effaith Partneriaeth Pensiwn Cymru (Lot 3) yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a chwblhau'r Contract Dyrannu.**

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**